



Llywodraeth Cymru

Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

RHEOLIADAU MABWYSIADU A MAETHU (CYMRU) (DIWYGIADAU AMRYWIOL) (CORONAFEIRWS) (DIWYGIO) 2021

Mawrth 2021

Trosolwg

Mae'r ddogfen hon yn rhoi crynodeb o'r ymatebion a gafodd Llywodraeth Cymru i'r ymgynghoriad:

MA/JM/0834/21 - Gwneud Rheoliadau Mabwysiadu a Maethu (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) (Coronafeirws) (Diwygio) 2021

Cyhoeddwyd yr ymgynghoriad ar 16 Medi 2021 a daeth i ben ar 2 Tachwedd 2021.

Cafwyd 7 ymateb gan amrywiaeth o randdeiliaid a phartïon â diddordeb.

Camau i'w Cymryd

Er gwybodaeth yn unig.

Gwybodaeth bellach

Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau am y ddogfen hon at:

E-bost: PlantSynDerbynGofal@llyw.cymru

Adran 1

1. Y Cefndir	3
1.1. Rheoliadau Asiantaethau Mabwysiadu (Cymru) 2005	3
1.2 Rheoliadau Cynllunio Gofal, Lleoli ac Adolygu Achosion (Cymru) 2015	4
1.3 Ymgynghori	4

Diben y Newid

Adran 2

2. Crynodeb o'r ymatebion a ddaeth i law	5
3. Ymateb Llywodraeth Cymru	5
3.1 Rheoliadau Asiantaethau Mabwysiadu (Cymru) 2005	5
3.2 Rheoliadau Cynllunio Gofal, Lleoli ac Adolygu Achosion (Cymru) 2015	6

Atodiadau

Atodiad A – Rhestr o'r ymatebwyr	7
----------------------------------	---

Crynodeb o'r Ymatebion i'r Ymgynghoriad

Adran 1:

1. Y Cefndir

Daeth Rheoliadau Mabwysiadu a Maethu (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) (Coronafeirws) 2020 ("Rheoliadau 2020") i rym ar 1 Tachwedd 2020. Gwnaethant ddiwygiadau i'r rheoliadau sy'n rheoleiddio mabwysiadu a maethu yng Nghymru: cyflwynwyd y newidiadau yng ngoleuni'r pwysau ar y sectorau mabwysiadu a maethu oherwydd y pandemig, a'u nod yw blaenoriaethu anghenion plant, tra'n llacio rhai rhwymedigaethau gweinyddol a gweithdrefnol i gefnogi'r gwaith o ddarparu gwasanaethau i blant tra'n cynnal mesurau diogelu priodol. Disgwylir i'r diwygiadau a wnaed gan Rheoliadau 2020 ddod i ben ar 31 Mawrth 2021. Maent yn gwneud newidiadau i'r canlynol:

1.1 Rheoliadau Asiantaethau Mabwysiadu (Cymru) 2005

Mae'r Rheoliadau hyn yn nodi'r broses ar gyfer asesu addasrwydd pobl i fabwysiadu plentyn ac addasrwydd plant i gael eu mabwysiadu.

Llacio gofynion gweithdrefnol penodol yng ngham 1 a cham 2

Daeth Rheoliadau Asiantaethau Mabwysiadu (Cymru) (Diwygio) 2020 a Rheoliadau Asiantaethau Mabwysiadu (Cymru) (Diwygio) (Rhif. 2) 2020 i rym ar 1 Ebrill 2020. Oherwydd y pandemig Covid-19, cydnabu Llywodraeth Cymru ei bod yn bosibl na fydd rhanddeiliaid yn gallu cydymffurfio â rhai o'r gofynion a amlinellir yn y broses asesu dau gam newydd ar gyfer darpar fabwysiadwyr a gyflwynwyd gan y Rheoliadau newydd.

Yn y broses newydd, dylid cynnal yr holl wiriadau statudol sylfaenol i ganfod 'cymhwystra' rhywun i gael ei asesu fel mabwysiadwr yng ngham un y broses newydd, a dim ond pan fydd y rhain wedi'u cwblhau ac yn foddhaol y gellir dechrau asesu'r 'addasrwydd' yn ffurfiol yng ngham 2. Yn ddealladwy, nid yw busnes arferol fel asesiadau meddygol wedi cael blaenoriaeth gan y GIG yn y cyfnod presennol a gallai hyn greu oedi wrth brosesu ceisiadau mabwysiadwyr.

Rhodddwyd hyblygrwydd gweinyddol ar 1 Ebrill 2020 fel bod modd cynnal cam 1 a cham 2 y broses asesu dau gam ar yr un pryd. Gallai hyn olygu, er enghraifft, bod asesiadau iechyd yn cael eu cynnal yn ystod cam 2 y broses.

Fodd bynnag, roedd yn ofynnol o hyd i gwblhau'r holl wiriadau angenrheidiol yn llawn cyn i fabwysiadwr gael ei gymeradwyo.

Dywedwyd wrth ymgeiswyr nad oeddent yn gallu cael mynediad i'r Mekanwaith Adolygu Annibynnol (IRM) pe bai eu ceisiadau'n aflwyddiannus am resymau'n

ymwneud â gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) neu wiriadau iechyd, er enghraifft, fel y byddai wedi digwydd pe bai'r gwiriadau hyn yn cael eu cwblhau yng nghanam 1. Roedd mabwysiadwyr yn gallu cael mynediad i'r IRM ar ôl cam 2, pe bai eu cais yn methu am unrhyw reswm arall nad oedd yn ymwneud â gwiriadau'r DBS, iechyd neu awdurdodau lleol, megis materion amddiffyn plant.

(i) Llacio'r amserlenni ar gyfer cwblhau camau 1 a 2 a hyd yr amser y gall darpar fabwysiadwr oedi rhwng cam 1 a 2

Mae Rheoliadau 2020 yn rhoi effaith ddeddfwriaethol i'r mesurau llacio gweinyddol hyn a hefyd yn diwygio (dros gyfnod Rheoliadau 2020) rai amserlenni sy'n ymwneud â'r broses dau gam fel a ganlyn:

- Mae'r amserlenni ar gyfer cam un a cham dau'r broses sef 2 fis (cam 1) a 4 mis (cam 2) yn parhau i fod ar waith ond dim ond **pan fydd hynny'n rhesymol ymarferol** y bydd gofyn i asiantaethau fodloni'r amserlenni.
- Bydd y terfyn o 6 mis ar yr amser y gallai darpar fabwysiadwr ei adael rhwng cam 1 a cham 2 yn cael ei ddileu.

1.2 Rheoliadau Cynllunio Gofal, Lleoli ac Adolygu Achosion (Cymru) 2015

Bydd y Rheoliadau Mabwysiadu a Maethu (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) (Coronafeirws) 2020 arfaethedig yn estyn, o 16 wythnos i 24 wythnos, y cyfnod y gall person sy'n perthyn i blentyn neu sydd fel arall yn gysylltiedig â phlentyn gael cymeradwyaeth dros dro i weithredu fel rhiant maeth awdurdod lleol ar gyfer y plentyn hwnnw.

1.3 Ymgynghori

Oherwydd y materion parhaus sy'n gysylltiedig â'r pandemig a'r pwysau sydd ar awdurdodau lleol, y trydydd sector a'r timau iechyd, cynhaliwyd ymgynghoriad 2 wythnos rhwng 16 Chwefror a 2 Mawrth i geisio barn ynghylch a oes angen parhau â'r trefniadau hyn dros gyfnod hwy i gefnogi'r gwaith o ddarparu gwasanaethau ymhellach.

Er mwyn diwygio'r dyddiad dod i ben a'r dyddiad o fewn y ddarpariaeth arbedion canlyniadol a bennir yn Rheoliadau 2020, byddai angen i set ddiwygio o Rheoliadau, Rheoliadau Mabwysiadu a Maethu (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) (Coronafeirws) (Diwygio) 2021 ddod i rym o 30 Mawrth i gefnogi'r estyniad. Felly, bydd Rheoliadau 2020 yn parhau i gael effaith rhwng 1 Ebrill a 30 Medi. Os bydd Llywodraeth Cymru o'r farn bod y sefyllfa'n gwella, gall ddirymu'r Rheoliadau hyn yn gynharach.

Cafwyd 7 ymateb i'r ymgynghoriad. Mae pob ymateb wedi cael ei ystyried yn gyfartal o ran y sylwadau a gafwyd. Mae rhestr o'r ymatebwyr ar gael yn Atodiad A.

Mae crynodeb o'r ymatebion, ynghyd â dadansoddiad a chasgliadau Llywodraeth Cymru, ar gael yn Adran 2.

Adran 2:

2 Crynodeb o'r ymatebion a ddaeth i law

Roedd consensws bod Rheoliadau Mabwysiadu a Maethu (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) (Coronafeirws) 2020 wedi galluogi parhad gwasanaethau ac wedi helpu i sicrhau nad yw plant sy'n aros am leoliadau yn profi oedi diangen wrth gael eu lleoli gyda theuluoedd.

Gyda'r hyblygrwydd presennol i Reoliadau Asiantaethau Mabwysiadu (Cymru) 2005, gall cyrff cydweithredol rhanbarthol ac asiantaethau mabwysiadu gwirfoddol recriwtio, asesu a chymeradwyo mabwysiadwyr yn effeithiol, gan sicrhau felly nad oes unrhyw broblemau gydag oedi i fabwysiadwyr.

Nodwyd hefyd bod y newidiadau i Reoliadau Cynllunio Gofal, Lleoli ac Adolygu Achosion (Cymru) 2015 o fudd i'r sector yn ystod y pandemig lle bu'n anodd cael tystlythyrau ac adroddiadau penodol o fewn 16 i 24 wythnos.

Mae'n amlwg bod yr hyblygrwydd a gyflwynir i'r ddwy set o Reoliadau hefyd yn cefnogi'n uniongyrchol yr anawsterau y mae'r sectorau maethu a mabwysiadu yn eu profi o ran cael adroddiadau gan feddygon teulu'r ymgeiswyr, yn enwedig gan fod practisau meddygon teulu yn rhan o raglen frechu Covid-19.

Y teimlad cyffredinol oedd ei bod yn bwysig bod y llacio a'r hyblygrwydd sy'n gysylltiedig â Rheoliadau 2020 yn parhau dros gyfnod hwy gan fod asiantaethau'n dal i ddelio â'r effeithiau a'r pwysau sy'n gysylltiedig â'r pandemig Covid-19. Cytunwyd y dylid cadw hyn yn ei le nes bod y sefyllfa wedi gwella'n sylweddol.

3 Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y gefnogaeth gref i newid y dyddiad y daw Rheoliadau 2020 i ben.

3.1 Rheoliadau Asiantaethau Mabwysiadu (Cymru) 2005

Bydd y llacio hwn yn parhau i fod yn ffactor amddiffynnol pwysig i liniaru yn erbyn oedi hir wrth leoli plant ac felly bydd yn cefnogi digonolrwydd ac effeithlonrwydd y lleoli. Mae'r broses yn parhau i gynnig asesiad cadarn a thrylwyr i fabwysiadwyr ac mae'n hanfodol bod pob cam o'r asesiad yn cael ei gynnal a'i gwblhau'n llawn cyn i unigolyn gael ei gymeradwyo.

Mae'n amlwg nad yw gwasanaethau'n gallu gweithio fel arfer, mae rhywfaint o oedi o hyd o ran cael gafael ar rai gwiriadau megis asesiadau meddygol ac felly mae'r llacio hwn yn helpu'r broses asesu a chymeradwyo i symud ymlaen lle bo modd, ac i weithredu'n effeithiol ac yn effeithlon yn ystod y pandemig. Mae hyn yn ei dro yn atal ôl-groniadau yn y system.

Cyhoeddodd y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol ddogfen ganllaw i gefnogi cyflwyno llacio a ddaeth i rym drwy Reoliadau 2020. Croesawyd hyn gan y sector mabwysiadu o ran sicrhau bod dull cyson yn cael ei weithredu ledled Cymru. Bydd y ddogfen ganllaw yn cael ei diweddarau i gefnogi Rheoliadau 2021.

Mae'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol yn gweithredu System Rheoli Perfformiad sy'n monitro'n agos pa mor effeithiol yw'r mesurau llacio sy'n gysylltiedig ag asesu a chymeradwyo mabwysiadwyr. Mae'n amlwg bod gweithredu'r mesurau llacio hyn yn ystod y pandemig yn cael effaith gadarnhaol ar y sector gan fod yr amser cyfartalog i asesu a chymeradwyo mabwysiadwr o'r cam ymgeisio wedi'i gynnal ar lefel dderbyniol.

3.2 Rheoliadau Cynllunio Gofal, Lleoli ac Adolygu Achosion (Cymru) 2015

Mae parhau i ddarparu cyfnod o estyniad o 16 i 24 wythnos er mwyn i berson sy'n ymwneud â phlentyn neu sydd fel arall yn gysylltiedig ag ef gael cymeradwyaeth dros dro fel gofalmwr maeth dros dro yn gyfle cadarnhaol i'r plentyn aros o fewn ei deulu neu rwydweithiau cefnogol, ac felly mae'n cyd-fynd ag uchelgeisiau Llywodraeth Cymru o'r ffrwd Waith Gwella Canlyniadau i Blant, i gadw teuluoedd gyda'i gilydd. Mae'n amlwg y bydd yr estyniad hwn yn parhau i gefnogi'r sector yn ystod y pandemig lle bu'n anodd cael tystlythyrau ac adroddiadau penodol o fewn 16 i 24 wythnos.

Mae Rheoliadau 2021 yn estyn y cyfnod cyn y daw rheoliadau 2020 i ben ac nid yw'n cyflwyno unrhyw ddiwygiadau sylweddol eraill. Felly, ni fydd unrhyw lleoliadau presennol yn cael eu hestyn yn awtomatig a byddant yn dal i fod yn ddarostyngedig i'r cyfnod o 24 wythnos (fel y'i cyflwynwyd gan reoliadau 2020). Pe bai awdurdod priodol yn awyddus i estyn lleoliad, byddai angen iddo ddilyn y weithdrefn yn rheoliad 27.

Ni fydd effaith andwyol ar blant oherwydd natur dros dro eu lleoliadau. Bydd y penderfyniadau a wneir er lles gorau'r plentyn a bydd ei farn yn cael ei hystyried.

Mae deddfwriaeth ategol yn amlinellu bod yn rhaid i awdurdod ddarparu gwasanaethau o'r fath i gefnogi'r person cysylltiedig sy'n ymddangos yn angenrheidiol i ddiogelu a hyrwyddo llesiant y plentyn gan gynnwys darpariaeth iechyd ac addysgol. Bydd y lleoliad yn parhau i gael ei fonitro a'i oruchwylio fel yr amlinellir yn y ddeddfwriaeth.

Mae Cymdeithas Mabwysiadu a Maethu Cymru (AFA Cymru) wedi cynhyrchu canllaw arfer da i gefnogi'r newidiadau a ddaeth i rym drwy Reoliadau 2020 ac mae'r sector wedi croesawu hyn. Caiff hwn ei ddiweddarau i gefnogi Rheoliadau 2021.

Atodiad A – Rhestr o'r ymatebwyr

Rhif	Cyfrinachol Ydy / Nac ydy	Sefydliad/Ar ran
1.	✓	Cyngor Sir Ynys Môn
2.	✓	Cyngor Bwrdeistref Sirol Sir y Fflint
3.	✓	Comisiynydd Plant Cymru
4.	✓	Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
5.	✓	Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen
6.	✓	Iechyd Cyhoeddus Cymru
7.	✓	Cyngor Sir Powys